*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Clinig Castle Square

## Dyddiad yr Arolygiad: 09 Rhagfyr 2014

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| 7 | Dylai'r practis adolygu’r dull o arddangos gwybodaeth; dylid rhoi mwy o sylw i ddewis iaith ac anghenion cyfathrebu’r cleifion, ac i gleifion sy’n derbyn gwasanaethau o dan y GIG.<br><br>Dylai'r practis ystyried ystod o ddulliau a moddau ar gyfer derbyn adborth gan gleifion. Dylid ystyried barn y cleifion wrth wneud newidiadau i ddatblygu a/neu wella'r gwasanaethau. | Cyn gynted ag y byddwn wedi derbyn hysbysiad am Ffïoedd y GIG ar gyfer mis Ebrill, fe fyddwn ni'n arddangos y posteri dwyieithog mewn lle amlwg.<br><br>Yn ogystal â'r holiaduron misol ysgrifenedig a roddir i'r 20 o gleifion cyntaf ar ddiwrnod penodol, fe fyddwn ni'n cadw blwch awgrymiadau yn y dderbynfa gyda ffurflenni cyfrinachol ar gyfer cyfnod a baratowyd ymlaen llaw, a hefyd fe fyddwn yn cynnal arolwg ar lafar bob chwarter i asesu profiad a boddhad y cleifion. | Michelle Jones | Cwblhau erbyn 30/04/2015<br><br>Blwch awgrymiadau ar waith 28/02/2015 |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru** | | | |
| 8 | Mae'n rhaid i ddeintyddion ddangos eu bod wedi darllen hanes meddygol cychwynnol y cleifion; dylid cadw copi o'r rhain neu eu sganio i'w rhoi ar y cyfrifiadur.<br>Dylai hanes meddygol dilynol y cleifion gael ei gofnodi a'i ddiweddaru'n gyson. | Mae'r practis bellach wedi mabwysiadu ac wedi ymgorffori'r holl weithdrefnau a argymhellwyd. | Michelle Jones | Wedi'i gwblhau 15/12/2014 |
| 9 | Dylid sicrhau bod meddyginiaeth frys yn cael ei chadw yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr. Dylid gofyn am gyngor ynglyn â pholisïau lleol ar gyfer storio meddyginiaeth a'r arfer orau mewn practisau deintyddol. | Mae'r holl feddyginiaeth frys bellach yn cael ei storio yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr. Hysbyswyd pob aelod o staff am leoliad yr holl gyffuriau ac offer brys.<br>Mae system ar waith i sicrhau bod yr holl gyffuriau ac offer brys yn gyfredol. | Michelle Jones | Wedi'i gwblhau 14/01/2015 |
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| 10 | Mae'n rhaid gwella'r system o fonitro hyfforddiant i'r holl staff, yn cynnwys tystiolaeth o'r hyfforddiant a dderbyniwyd ac a gynlluniwyd ac erbyn pryd mae angen ei adnewyddu. | Mae gwaith ar y gweill i greu taenlen a fydd yn arddangos holl anghenion hyfforddiant y staff a chofnodion Datblygiad Proffesiynol Parhaus a fydd yn cael eu monitro. | Michelle Jones | Erbyn 21/03/2015<br>Cwblhawyd i gyd ar 03/03/2015 |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| 10 | Mae'n rhaid i'r staff dderbyn arfarniad personol blynyddol a chael cynllun datblygiad personol i'w galluogi i ddatblygu eu rôl. Dylid cadw copïau mewn lle diogel o fewn y practis. | Trefnwyd arfarniadau nesaf yr holl staff ar gyfer 03/03/2015.<br>Caiff cwpwrdd ffeilio ei brynu er mwyn cadw'r cofnodion hyn dan glo. | Katharine Humphreys | 31/03/2015<br>Wedi'i gwblhau 3/3/2015 |
| 10 | Dylai proses recriwtio staff y practis gynnwys camau priodol i sicrhau bod staff sy'n gweithio gydag oedolion a phlant yn addas i wneud hynny. | Erbyn hyn mae gwiriadau cyfredol wrth y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gan yr holl staff a gyflogir.<br>Gwnaeth y tîm fynychu cwrs Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed ar 11/12/2014 a chwrs diogelu plant ar 29/01/2015. | Michelle Jones | Wedi'i gwblhau 29/01/2015 |
| 11 | Mae'n rhaid cynnal archwiliadau rheolaidd yn unol â WHTM 01-05 a sicrhau bod tystiolaeth ddogfennol o'r camau gweithredu dilynol ar gael. | Cynhelir archwiliadau yn flynyddol. Cwblhawyd y camau gweithredu yn sgil archwiliad Rhagfyr 2014, a chawsant eu llofnodi, eu dyddio a'u ffeilio. | Michelle Jones | Wedi'i gwblhau 29/01/2015 |
| 11 | Adolygu lefelau staffio o ran rôl rheolwr y practis, i ganiatáu digon o amser i reoli'n effeithiol a gwella'r gwasanaeth. | Amharwyd ar ddyletswyddau Rheolwr y Practis y llynedd o ganlyniad i gyfnodau hir o lefelau staffio isel oherwydd salwch.<br>Mae trefn arferol y practis bellach yn ôl yr arfer a bellach mae gan Reolwr y Practis amser digonol ar gyfer ei dyletswyddau rheoli. | Katharine Humphreys | Wedi'i gwblhau 18/12/2014 |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |
| | Ddim yn berthnasol | | | |

## Cynrychiolydd y Practis:

**Enw (printiwch):** **Michelle Jones...........................................................**

**Teitl:** **Mrs.....................................................................................**

**Llofnod:** **Michelle Jones...............................................................................**

**Dyddiad:** **30/01/2015..........................................................**